

Edrychwn ymlaen at weld pawb yn ôl yn barod am dymor arall. Bydd y cyfarfod yn gorffen am 8.30 o'r gloch.

## Cyhoeddiadau

### CEFNYWAUN AC EBENESER

**Nos Lun, Medi 26:** Cymdeithas Undebol yn Nhy Elidir am 7.00 o'r gloch yng nghwmni Malcolm Allen.

**Nos Fawrth, Medi 27:** Pwyllgor eglwys Ebeneser am 7.00 o'r gloch.

**Dydd Sul, Hydref 2:** Gwasanaethir am 3.30 o'r gloch gan y Gweinidog.

### CAPEL COCH A NANT PADARN

**Dydd Sul, Hydref 2:** Gwasanaethir am 10.00 a 5.00 o'r gloch gan Mr Andrew Settatee. Bydd yr Ysgol Sul am 11.15 o'r gloch.

### REHOBOTH

**Dydd Sul, Hydref 2:** Ni fydd oedfa.

### BETHLEHEM

**Dydd Sul, Hydref 2:** Ysgol Sul am 10.00 o'r gloch a gwasanaethir am 2.00 o'r gloch gan y Parchg Brian Wright.

### CARMEL

**Dydd Llun, Medi 26:** Te Bach am 2.30 o'r gloch.

**Nos Wener, Medi 30:** Dwylo Prysus

## Y mis nesaf - Deiniolen

### Medi 18

5.00 p.m. - Y Gweinidog

### Medi 25

5.00 p.m. - Y Parchg Trefor Jones

### Hydref 2

3.30 p.m. - Y Gweinidog

### Hydref 9

5.00 p.m. - Oedfa Ddiolchgarwch

am 6.30 o'r gloch.

**Dydd Sul, Hydref 2:** Bydd yr Ysgol Sul am 10.30 o'r gloch ac oedfa Gymundeb am 5.00 o'r gloch dan arweiniad y Gweinidog.

### CYNLLUN EFE

**Dydd Llun, Medi 26:** Cyfarfod Gweddi yn 'Cartref', Caeathro am 10.30 o'r gloch.



## Cyfarfod Blynyddol

### Cynllun EFE

yng Nghapel y Rhos, Llanrug  
nos yfory, nos Lun, Medi 26

7.00 o'r gloch

Croeso cynnes

## Y mis nesaf - Llanberis

### Medi 18


10.00 a.m. - Dr Huw Tegid Roberts  
5.00 p.m. - Oedfa yng ngofal aelodau  
Parti Bytholwyrdd

### Medi 25

10.30 a.m. - Oedfa Deulu yng ngofal  
Mrs Susan Williams

### Medi 2

10.00 a.m. a 5.00 p.m. - Andrew Settatee  
11.15 a.m. - Ysgol Sul



# Gronyn

Taflen wythnosol Gofalaeth Fro'r Llechen Las  
Rhif 698: Dydd Sul, 25 Medi, 2016

## Posau

Fyddwch chi'n gwneud croeseiriau? Mae yna rai sy'n prynu papur newydd dyddiol er mwyn cael y croesair a dim arall. Neu beth am chwilar neu sudoku? Fyddwch chi'n prynu llyfr posau ac yn troi ato bob dydd yn ddeddfol? Neu fyddwch chi'n rhoi cynnig ar bosau a anfonir yn rheolaidd trwy *Facebook* neu *Twitter*, fel rhai mathemategol Gareth Ffowc Roberts o Fangor? Yr un peth sy'n gyffredin i bosau da o bob math yw bod rhaid rhoi'r meddwl ar waith ac ymdrech i'w datrys. Ambell dro, daw'r ateb yn weddol rwydd; dro arall, ddaw o ddim o gwbl waeth faint o feddwl a wnawn. Ond rhwydd neu beidio, mae'n rhaid wrth ymdrech. Yn yr ymdrech y mae'r hwyl, â'r holl ymarfer hefyd mae'n debyg yn help i gadw'r meddwl yn iach ac effro.

Roedd Iesu Grist yn arfer gosod posau. Nid y math o bosau sy'n rhoi cymaint o bleser i bobl heddiw. Nid posau geiriol neu fathemategol i brofi ein gallu a'n deall a'n gwybodaeth a'n rhesymeg. Nid posau er difyrwch ac i fyrrhau'r amser. Gosod posau i'n goleuo ac i'n dysgu a wna'i Iesu yn ei ddamhegion. Nid adrodd straeon yn unig a wna'i, ond roedd i'r straeon hynny ystyr gudd. Ac wrth wneud hynny, roedd Iesu Grist yn gwneud yr hyn yr oedd Eseciel ac eraill wedi ei wneud yn yr Hen Destament.

'Daeth gair yr ARGLWYDD ataf a dweud, "Fab dyn, gosod bos a llefara ddameg wrth dŷ Israel, a dywed, 'Fel hyn y dywed yr Arglwydd DDUW:

daeth i Lebanon eryr mawr a chanddo adenydd cryfion, a'i esgyll yn hirion ac yn llawn plu amryliw'" (Eseciel 17:1-3). Darllennwch y bennod er mwyn gweld y pos llawn yr oedd Eseciel i'w osod i bobl Israel. Mae'r datrysiaid yno hefyd, diolch am hynny.

Ond pam fod Duw yn gosod posau? Pam fod Iesu'n mynnu dysgu trwy ddamhegion? Pam na fyddai'n dweud pethau'n eglur, heb guddio'i neges mewn stori? Oni fyddai'n rhwyddach i bobl glywed ei neges petai'n siarad yn blaen? Onid oedd perygl na fyddai pobl yn deall ei neges os oedd y neges honno wedi ei chuddio mewn pos?

Ond dewis defnyddio damhegion a wnaeth Iesu er mwyn gorfodi pobl i feddwl am yr hyn yr oedd yn ei ddsygu. Os nad oedd pobl yn barod i chwilio, fydden nhw ddim yn dod o hyd i'r atebion. Heb i bobl geisio, fydden nhw ddim yn cael. Ac mae felly o hyd. Mae Duw am i ni fod o ddifrif gydag ef, ac un ffordd o wneud hynny ganddo yw'r parodrwydd hwn i wir geisio deall a gweld.

Gyda'r posau sydd mor boblogaidd heddiw, yn y chwilio a'r pendroni y mae'r hwyl a'r boddhad. Fel arfer, nid yw'r ateb o bwys mawr. Ond fel arall y mae hi efo'r Iesu a'r posau sydd yn ei ddsygeidiaeth. Nid y chwilio sydd bwysicaf ond yr ateb. Nid er mwyn ein difyrwch y dysgodd Iesu ond er mwyn ein lles a'n hiachawdwriaeth dragwyddol.

## Gofalaeth Fro'r Llechen Las

Cefnywaun (P), Deiniolen  
Ebeneser (A), Deiniolen  
Capel Coch (P), Llanberis  
Nant Padarn A), Llanberis  
Rehoboth (P), Nant Peris  
Bethlehem (A), Talybont  
Carmel (A), Llanllechid

Gweinidog: Y Parchg John Pritchard  
Cilfynydd, Llanberis, Gwynedd  
Ffôn: 01286 872390  
e-bost: john.cilfynydd@btinternet.com

Gwefan yr Ofalaeth:  
gronyn.wordpress.com  
neu gronyn.org

## Balm o Salm



BEIBL BYW

'Mor helaeth yw dy ddaioni  
sydd ynghadw gennyf i'r rhai  
sy'n dy ofni, ac wedi ei aml-  
ygu i'r rhai sy'n cysgodi ynot, a hynny  
yng ngŵydd pawb!

Fe'u cuddi dan orchudd dy bresenoldeb  
rhag y rhai sy'n cynllwyn; fe'u cedwi  
dan dy gysgod rhag ymryson tafodau.

Y mae'r ARGLWYDD yn cadw'r rhai  
ffyddlon, ond yn talu'n llawn i'r rhai  
balch. Byddwch gryf a gwrol eich calon,  
yr holl rai sy'n disgwyl wrth yr  
ARGLWYDD' (Salm 31:19-20, 23-24).

## Heddiw

Mrs Susan Williams fydd yn arwain yr  
oedfa Deulu yn Capel Coch am 10.30 o'r  
gloch. Diolch yn fawr iddi am ei help.

Gwasanaethir yn Neiniolen am 5.00 o'r  
gloch gan y Parchg Trefor Jones.

Bydd yr Ysgol Sul yn Llanllechid am  
10.30 o'r gloch, ac oedfa am 2.00 o'r  
gloch.

Gwasanaethir yn Nhalybont am 2.00 o'r  
gloch gan y Parchg Dafydd Job.

Ni fydd oedfa yn Nant Peris.

Diolch i bawb sy'n gwasanaethu yn ein  
hoedfaon heddiw.

## Cofion

Dymunwn yn dda i bawb sydd heb fod  
yn dda eu hiechyd.

## Angladd

Cynhaliwyd angladd Miss Nancy Jones,  
Plas Ogwen, Bethesda (o 20 Erw Las,  
Bethesda), a fu farw ym Mhlas Ogwen  
ddydd Mercher, Medi 14, yng nghapel  
Carmel a Mynwent Coetmor ddydd Iau,  
Medi 22 dan arweiniad y Gweinidog a'r  
Parchg Geraint Hughes, Pwllheli.

Roedd yn 95 mlwydd oed a diolchwn am  
yr oes hir a bodlon a gafodd. Bu'n aelod  
ffyddlon o'r eglwys yng Ngharmel. Cyn  
hynny, bu'n aelod yng nghapel Treflys a  
Chapel Bethesda, Bethesda.

Roedd yn wraig garedig, ac yn gymydog  
hael o fewn ei chymdogaeth, yn arbennig  
i blant y gymdogaeth. Bu'n driw i'w  
theulu, yn arbennig i'w diweddar frawd  
Emrys a'i hefaill Megan.

Cydymdeimlwn â'i theulu yn eu hiraeth  
a'u colled.

## Bore Coffi Macmillan

Cynhelir Bore Coffi yn 'Manod', Ffordd  
Capel Coch, Llanberis at waith elusen  
cancer Macmillan rhwng 10.00 a 12.00 o'r  
gloch, ddydd Iau, Medi 29.

## Cyfarfod Blynyddol Efe

Bydd Cyfarfod Blynyddol Cynllun Efe  
yng Nghapel y Rhos, Llanrug am 7.00  
o'r gloch, nos yfory, nos Lun, Medi 26.

Yn ystod y cyfarfod cawn glywed am  
waith Efe dros y flwyddyn ddiwethaf, a  
bydd cyfle i drafod unrhyw syniadau ar  
gyfer y gwaith i'r flwyddyn nesaf.

## Cymdeithas Deiniolen

Bydd Cymdeithas Undebol Deiniolen yn  
ail ddechrau yn Nhŷ Elidir am 7.00 o'r  
gloch, nos yfory, nos Lun, Medi 26.  
Bwrw golwg nôl ar lwyddiant tîm pêl  
droed Cymru yn Ffrainc y bydd y gŵr  
gwadd, Malcolm Allen, wrth iddo rannu  
atgofion am gystadleuaeth yr Ewros yn  
Ffrainc. Mae croeso cynnes i chi ddod i  
wrando arno.

## Capel Coch

Yng nghyfarfod blaenoriaid Capel Coch  
nos Fercher penderfynwyd ein bod yn  
cynnal cyfarfod agored nos Fercher,  
Hydref 5 i drafod y datblygiadau nesaf o  
ran y festri.

Mae angen gwneud rhai gwelliannau, a  
gwahoddwn bawb o aelodau Capel Coch  
a Nant Padarn i ymuno â ni i drafod yr  
hyn sydd i'w wneud.

Ceir rhagor o fanylion yn Gronyn yr  
wythnos nesaf, ond am y tro nodwch y  
dyddiad, a'r amser, sef 7.00 o'r gloch.

## Y Ffordd

Yng Nghapel Coffa, Cyffordd Llandudno  
nos Iau, Medi 15, cyflwynodd Undeb yr  
Annibynwyr Cymraeg 'Y Ffordd', sef  
cynllun newydd ar gyfer yr eglwysi, i'w  
helpu i feithrin ffydd a hyder. Yn ystod y  
flwyddyn gyntaf bydd y pwyslais ar Y  
Beibl a Sylfeini'r Ffydd. Paratoir 4 DVD  
y flwyddyn yn sail i'r cynllun. Mae'r

cyntaf yn barod, a chafwyd copiau ohono  
nos Iau. Y dasg nesaf fydd penderfynwyd  
pa ddefnydd i'w wneud o'r deunydd!

## Ebeneser

Cynhaliwyd Cyfarfod Eglwys Ebeneser  
nos Fercher, Medi 21. Diolch i bawb a  
ddaeth yno ac i bawb a ymddiheurodd  
am fethu â bod yn bresennol.

Penderfynwyd ffurfio 'Pwyllgor Capel' i  
ddelio â'r gwahanol faterion sydd angen  
sylw, a diolch i'r rhai a gytunodd i fod yn  
aelodau ohono. Bydd modd i'r Pwyllgor  
wahodd eraill i fod yn aelodau.

Etholwyd Mr Gwyn Parri, Cynefin yn  
Ysgrifennydd yr eglwys. Diolch yn fawr  
iddo am ei barodrwydd i dderbyn y  
swydd. Diolchwyd i'r cyn-ysgrifennydd,  
Mr John B Jones, am ei holl waith dros  
yr eglwys. Cynhelir y pwyllgor am 7.00  
o'r gloch nos Fawrth, Medi 27.

## Cyfarfod Gweddi Efe

Mae Cyfarfod Gweddi Efe wedi symud o  
fore Gwener i fore Llun, ac felly byddwn  
yn cyfarfod am 10.30 fore fory, Medi 26,  
yn 'Cartref', Caethro. Croeso cynnes i  
bwy bynnag a fynno i ymuno â ni.

## Agor y Llyfr

Bydd tîm 'Agor y Llyfr' Deiniolen yn ail  
afael yn y gwaith yn Ysgol Gwaun Gynfi  
y tymor hwn fore Gwneer, Medi 30.  
Unwaith eto, byddwn yn adrodd straeon  
o'r Beibl yn y gwasanaeth boreol. Mi  
fyddem yn falch iawn o gael aelodau  
newydd i'r tîm. Os ydych eisiau gwybod  
rhagor holwch y Gweinidog.

## CIC

Bydd tymor newydd CIC yn cychwyn  
nos Wener, Medi 30, am 7.00 o'r gloch  
yn Capel Coch. Cofiwch fod croeso i  
blant Blwyddyn 6 i gyfarfodydd CIC.